**Sesiwn 1999-2000 Rhif 54**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD MERCHER, 8 MAWRTH 2000

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y cyfarfod yn cychwyn am 2pm**

**Cwestiynau i Rosemary Butler, yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Addysg 16 oed** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau I Christine Gwyther, yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Gymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf)(Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001)(Cymru) 2000**
Cynnig bod y Cynulliad,
(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy'n ymwneud â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf) (Cyfradd y Gostyngiad ar gyfer 2000/2001) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Chwefror 2000

(b) yn ystyried egwyddor y Gorchymyn drafft

(c) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2000

**Dadl I nodi Cenedlaethol Menywod**
Mae'r Cynulliad hwn yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Menywod ac yn croesawu'r rôl y mae menywod yng Nghymru a ledled y byd yn chwarae yn eu cymunedau, yn eu teuluoedd ac yn y gweithle. Mae'r Cynulliad yn nodi gyda phleser arbennig ei safle fel arweinydd ymysg sefydliadau gwleidyddol democrataidd Ewrop o ran ei gynrychiolaeth o ferched, a'i gyfrifoldeb statudol i roi sylw dyledus i gyfle cyfartal yn y modd y mae'n ymarfer ei swyddogaethau ac yn cynnal ei fusnes.

Mae'r Cynulliad hwn wedi ymrwymo ei hun i ddileu'r anghyfartaleddau sy'n parhau i fodoli. Mae'n nodi gyda phryder arbennig y problemau o gyflogau isel a'r gagendor sy'n bodoli rhwng cyflogau menywod a dynion; a bod lefel y gofal plant a'r gefnogaeth i ferched sy'n ofalwyr yn parhau'n isel. Mae'n nodi hefyd bod lefel y trais yn erbyn menywod yn parhau ac yn nodi'r cam-wahaniaethu pellach sy'n cael ei wynebu gan fenywod o leiafrifoedd ethnig a menywod sy'n anabl.

Mae’r Cynulliad yn ymrwymo i weithio gyda Chynghrair Cenedlaethol Menywod Cymru, y Comisiwn Cyfle Cyfartal a sefydliadau eraill er mwyn mynd i’r afael â’r problemau hyn ac i gyflawni’r dyheadau a gynhwysir yn eu Hagenda Gweithredu Cenedlaethol, sy’n deillio o Agenda’r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Menywod

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad**

**am 2.00pm ddydd Mawrth, 7 Mawrth 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**